------------------------Pecyn dogfennau cyhoeddus ------------------------

# Agenda - Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Lleoliad:

**Fideo Gynadledda drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 14 Gorffennaf 2020

Amser: 09.00

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Llinos Madeley**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddPPIA@cynulliad.cymru

**Yn unol â Rheol Sefydlog 34.19, mae'r Cadeirydd wedi penderfynu gwahardd y cyhoedd o gyfarfod y Pwyllgor er mwyn amddiffyn iechyd y cyhoedd. Bydd y cyfarfod hwn yn cael ei ddarlledu'n fyw ar www.senedd.tv.**

## Rhag-gyfarfod anffurfiol

(09.00 - 09.30)

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(09.30)

## 2 Y Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) - sesiwn dystiolaeth 1 gyda chynrychiolwyr Llywodraeth Cymru

(09.30 - 11.00) (Tudalennau 1 - 31)

Kirsty Williams AS, y Gweinidog Addysg

Claire Bennett, Cyfarwyddwr - Cymunedau a Threchu Tlodi

Ceri Planchant, Cyfreithiwr

Y Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru)

Memorandwm Esboniadol

**Dogfennau atodol:**

Briff Ymchwil

Senedd Cymru
Welsh Parliament

## 3 Papurau i'w nodi

(11.00)

**3.1 Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg at Lywodraeth Cymru - Effaith Covid-19 ar iechyd corfforol a meddyliol plant a phobl ifanc**

(Tudalennau 32 - 40)

**Dogfennau atodol:**

CYPE(5)-18-20 - Papur i'w nodi 1

**3.2 Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon at Brif Weinidog Cymru ynghylch gofal plant ar gyfer gweithwyr allweddol yn ystod gwyliau'r haf**

(Tudalen 41)

**Dogfennau atodol:**

CYPE(5)-18-20 - Papur i'w nodi 2

**3.3 Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg at y Gweinidog Addysg ynghylch addysg ddewisol yn y cartref**

(Tudalen 42)

**Dogfennau atodol:**

CYPE(5)-18-20 - Papur i'w nodi 3

**3.4 Llythyr gan Gomisiynydd Plant Cymru at y Gweinidog Addysg ynghylch y disgwyliadau o ran darpariaeth ysgolion yn nhymor yr hydref**

(Tudalennau 43 - 44)

**Dogfennau atodol:**

CYPE(5)-18-20 - Papur i'w nodi 4

**3.5 Llythyr gan Gomisiynydd Plant Cymru at y Prif Weinidog ynghylch plant a mesurau i lacio ar y cyfyngiadau yn sgil COVID-19**

(Tudalennau 45 - 46)

**Dogfennau atodol:**

CYPE(5)-18-20 - Papur i'w nodi 5

**3.6 Llythyr gan Gomisiynydd Plant Cymru at bob undeb addysgu yng Nghymru ynglŷn â rôl yr undebau ac ailagor ysgolion yn nhymor yr hydref**

(Tudalennau 47 - 48)

**Dogfennau atodol:**

CYPE(5)-18-20 - Papur i'w nodi 6

# Eitem 2

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**CYPE(5)-18-20 - Papur i'w nodi 1**

Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**
—
Welsh Parliament
**Children, Young People and Education Committee**

Vaughan Gething AS, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Julie Morgan AS, y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Kirsty Williams AS, y Gweinidog Addysg

Dyddiad: 3 Gorffennaf 2020
Pwnc: **Effaith Covid-19 ar iechyd corfforol a meddyliol plant a phobl ifanc**

Annwyl Weinidogion,

Mae effaith Covid-19 ar iechyd corfforol a meddyliol plant a phobl ifanc wedi bod yn faes craffu â blaenoriaeth i ni yn ystod yr argyfwng iechyd cyhoeddus presennol. Er ein bod ni'n cydnabod ei bod yn ymddangos bod plant a phobl ifanc yn llai tueddol o gael eu heffeithio gan y feirws nag oedolion, nid oes llawer o amheuaeth bod effeithiau ehangach Covid-19 - a'r mesurau a gymerwyd i'w reoli - wedi effeithio'n sylweddol ar eu bywydau.

Ar 9 Mehefin cawsom dystiolaeth gan gynrychiolwyr y Colegau Brenhinol, y trydydd sector, a seicoleg glinigol ar **effeithiau Covid-19 ar iechyd corfforol a meddyliol plant a phobl ifanc**. Yn unol â'n dull o graffu ar Covid-19, mae'r atodiad i'r llythyr hwn yn tynnu sylw at y meysydd rydym yn gofyn am fanylion pellach amdanynt a/neu sicrwydd yn eu cylch ar hyn o bryd yn y pandemig. Nid yw'n rhestr gynhwysfawr o'r materion sy'n bwysig yn ein golwg ni; yn hytrach, ein bwriad yw rhoi adborth i Lywodraeth Cymru, ar fyrder, ar y meysydd sydd angen rhagor o sylw yn ein barn ni, a darparu goruchwyliaeth effeithiol ac amserol o'r materion sy'n dod i'r amlwg.

Crynhodd Dr David Tuthill, ar ran y Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant, effaith Covid-19 ar iechyd corfforol a meddyliol plant a phobl ifanc fel a ganlyn:

> "Children are probably unlikely to be directly affected by the virus with physical illness—that's uncommon in terms of severe illness, but as an inflammatory condition, which we see, but it's very uncommon. What they have been affected by quite greatly is, if I could call it, collateral damage—their schools have been closed, their clubs have been shut, they can't socialise. All those things have affected children, and they're very anxious, because there's a lot of worry about coronavirus, which they're hearing about—their grandparents might have died, or they're hearing that thousands of people have died." *(Cofnod y Trafodion, paragraff 7, 9 Mehefin 2020)*

Rydym yn awyddus i sicrhau na chollir golwg ar yr ymagwedd hawliau plant yn y broses o reoli'r pandemig hwn, nac yn ein gwaith craffu fel Senedd. O'r herwydd, rydym wedi gofyn am ddadl ar effaith Covid-19 ar blant a phobl ifanc. Os cytunir ar y cais hwnnw, bydd y llythyr hwn, a

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddPPIA@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddCYPE@senedd.wales
0300 200 6565

gohebiaeth flaenorol rhyngom, yn sail i'r ddadl honno, gan ein bod o’r farn y dylai holl Aelodau'r Senedd gael cyfle i drafod y materion hyn, cyn toriad yr haf, fel mater o flaenoriaeth.

Cofion gorau,

**Lynne Neagle AS**
**Cadeirydd**

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

## ATODIAD

### 1. Cau ysgolion

Er y cydnabuwyd bod cau ysgolion wedi bod yn rhan angenrheidiol o reoli'r pandemig, roedd consensws clir ymhlith tystion yn ein cyfarfod ar 9 Mehefin bod effaith peidio â bod yn yr ysgol ar lesiant llawer o blant yn sylweddol. Mae gwaith academaidd diweddar a sylw yn y cyfryngau wedi ymdrin yn eang â'r effaith negyddol ar lesiant, cyrhaeddiad addysgol a chyfyngu difreintedd plant. Mae Comisiynydd Plant Cymru hefyd wedi tynnu sylw at effaith negyddol y pandemig ar hawl plentyn i gael addysg. Rhestrir hawl plentyn i gael addysg yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn ac, yn ei thro, mae'n ofynnol i Lywodraeth Cymru drwy Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 roi sylw dyledus i'r Confensiwn.

Yng ngoleuni hyn, credwn y dylem roi blaenoriaeth i sicrhau'r cyswllt mwyaf diogel, wyneb yn wyneb â phlant a phobl ifanc yn ystod yr haf eleni. Mae'n destun gofid i ni nad oedd modd cytuno â'r undebau llafur ar y dewis roedd Llywodraeth Cymru yn ei ffafrio, sef cymryd gwyliau cynharach yn yr haf a dychwelyd ym mis Awst. Rydym hefyd yn siomedig iawn - er gwaethaf gwaith caled llawer o arweinwyr ysgolion, athrawon a staff – nad yw'r bedwaredd wythnos a gynigiwyd i ysgolion ailgydio, dal i fyny a pharatoi plant ar gyfer tymor yr hydref wedi dwyn ffrwyth mewn sawl rhan o Gymru.

**Gan gydnabod y posibilrwydd real iawn o ail don o'r coronafeirws yn nhymor yr hydref, mae'n hollbwysig bod gwersi yn cael eu dysgu yn sgil yr heriau a wynebwyd yn ddiweddar wrth geisio cytuno ar drefniadau ar gyfer dychweliad ein plant i'r ysgol. Rhaid i lesiant plant fod wrth wraidd penderfyniadau sy'n ymwneud ag ysgolion, ac rydym yn annog Llywodraeth Cymru a'r sector i weithio gyda'i gilydd i addasu a bod yn feiddgar ac yn arloesol yn wyneb y pandemig byd-eang hwn. Credwn, o fis Medi, bod yn rhaid i blant ledled Cymru gael cyswllt o ansawdd uchel â'u hathrawon yn gyson, a bod yn rhaid rhoi pob cyfle posibl i holl blant Cymru ddatblygu eu haddysg. Bydd hyn hefyd yn galluogi ysgolion i chwarae eu rhan hanfodol yn yr ymagwedd system gyfan at ategu iechyd meddwl a llesiant plant a phobl ifanc.**

Yn ein hadroddiad Cadernid meddwl pwysleisiwyd rôl hanfodol ysgolion yn iechyd emosiynol a meddyliol plant a phobl ifanc. Mae hyn yn wir yn awr yn fwy nag erioed. Cyn dyfodiad y pandemig hwn, roedd y canllawiau yr oeddem wedi galw amdanynt ar ymagwedd ysgol gyfan at ymdrin ag iechyd emosiynol a meddyliol yn cael eu paratoi. **Credwn y dylid cyhoeddi'r canllawiau hyn ar gyfer ymgynghori fel mater o flaenoriaeth, er mwyn sicrhau y gall cymorth ar gyfer iechyd emosiynol a meddyliol ein plant fod yn nodwedd ganolog o'u haddysg.**

### 2. Cydnabod amrywiaeth materion llesiant ac iechyd meddwl

Mae'n amlwg o'r dystiolaeth a gawsom fod llawer o'r teimladau mae pobl ifanc wedi bod yn eu profi, fel gorbryder, straen ac unigrwydd, yn ymateb naturiol i'r risgiau a'r heriau a berir gan y pandemig a'r mesurau a gymerir i'w reoli. Pwysleisiodd Samariaid Cymru:

> “What we don't want to do is to medicalise a perfectly reasonable, natural response to the challenges that young people are experiencing, including the loneliness that we know is quite a significant part of it, and they're going to be impacted by the situation of their parents and their wider family, of course. So, I think it's a very important message, and I don't think it's clear enough, really, that actually the measure of the distress people are feeling shouldn't just be measured through how many young people tip into mental health problems that are defined as such—important though that is to be aware of that danger. But it's also responding to distress in the wider population of young people, and I think it just really underscores this point about building emotional resilience for every child and every school, skilling up every teacher in every school, around a compassionate response to the distress in the young people they might encounter.”[1]

Ar ben arall y sbectrwm difrifoldeb, pwysleisiodd Samariaid Cymru ei bod yn rhy gynnar i ddata ddangos pa effaith mae'r pandemig yn ei chael ar gyfraddau hunanladdiad. Fodd bynnag, rhybuddiodd yr elusen bod angen monitro’n agos y ffactorau sy'n cyfrannu at gyfraddau hunanladdiad a risg hunanladdiad - fel sioc economaidd sylweddol, unigrwydd ac arwahanrwydd.

**Mae'n amlwg o'r dystiolaeth a gawsom fod angen sicrhau cydbwysedd pwysig rhwng cydnabod a chynorthwyo yn ystod achosion o broblemau iechyd meddwl a pheidio â throi ymatebion naturiol i bandemig brawychus yn gyflyrau meddygol. Mae’n amlwg pa mor bwysig yw hi bod plant a phobl ifanc yn gwybod at bwy y gallant droi am gymorth, ac mae hyd yn oed yn fwy arwyddocaol pan fydd lleoedd cyfarwydd, fel ysgolion a meddygfeydd, yn teimlo'n llai hygyrch. Yn ein barn ni, mae hyn yn dangos ymhellach bwysigrwydd ein hargymhellion yn adroddiad Cadernid Meddwl sy'n ymwneud â darparu cydnerthedd emosiynol a chymorth ymyriadau cynnar, a mynd i'r afael â'r bylchau mewn gwasanaethau i'r plant a'r bobl ifanc hynny sy'n anghymwys ar gyfer gwasanaethau CAMHS ond sy’n methu dod o hyd i gymorth therapiwtig neu gymorth ‘lefel is’ addas – y garfan a elwir yn ‘ganol coll’. Rhaid i Lywodraeth Cymru barhau i flaenoriaethu gweithredu ein hargymhellion yn Cadernid Meddwl, ac rydym yn bwriadu dychwelyd at ein gwaith dilynol ar yr ymchwiliad hwnnw cyn gynted â phosibl.**

## 3. Data

Rydym yn cydnabod bod yr amgylchiadau digynsail a ddaeth i ganlyn pandemig Covid-19 wedi golygu bod angen newid adroddiadau perfformiad arferol er mwyn lleihau'r baich ar fyrddau iechyd. Nodwn hefyd fod Llywodraeth Cymru wedi sefydlu’r Grŵp Achosion Iechyd Meddwl i gynnal goruchwyliaeth o wasanaethau iechyd meddwl yn ystod y pandemig, gyda byrddau iechyd yn adrodd yn wythnosol ar allu a galluedd gwasanaethau iechyd meddwl. Serch hynny, dywedodd Mind Cymru wrthym:

> “…ensuring that the data collection around access to services, referrals, where they're coming from, and having that broken down by protected characteristics as well, in

[1] Cofnod y Trafodion, paragraff 142, 9 Mehefin 2020.

terms of ethnicity and things like that […] is really important, so that we get an idea of where the pressures are on the system, as well as how those pressures are being coped with at any given time […] the data around what's happening is probably not in the best possible position for us to be able to say exactly what's going to happen in the coming months."[2]

**Rydym yn awyddus i sicrhau bod darlun clir a thryloyw o nifer y plant a phobl ifanc sy'n cyrchu gwasanaethau i ategu eu hiechyd corfforol a meddyliol ar gael i'r cyhoedd. Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod y data hwn ar gael mewn modd amserol a hygyrch, er mwyn sicrhau y gellir craffu'n llawn ar effaith y pandemig a'r mesurau i'w reoli.**

## 4. Seilwaith digidol

Mae pwysigrwydd defnyddio technoleg i alluogi ein poblogaeth, yn hen ac ifanc, i ymdopi yn ystod y pandemig hwn wedi ei gofnodi'n glir. Yn achos plant a phobl ifanc, rydym yn croesawu'r buddsoddiad a wnaed gan Lywodraeth Cymru i alluogi mynediad at offer a band eang. **Fodd bynnag, nid yw'n glir i ni pa gamau mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i fonitro faint o blant sydd ar hyn o bryd heb fynediad at y seilwaith digidol sy'n angenrheidiol i gael mynediad at eu gwasanaethau addysg, iechyd a chymorth. Byddem yn croesawu manylion pellach am y trefniadau monitro hyn, a'r camau sy'n cael eu cymryd i fesur faint o blant sy'n elwa ar y buddsoddiad a wnaed.**

Er ein bod ni'n cydnabod y cyfraniad sylweddol a buddiol mae mynediad digidol o bell at wasanaethau a chymorth wedi ei wneud yn ystod y pandemig hwn, byddem yn rhybuddio rhag gorddibynnu arno. **Mewn llawer o amgylchiadau, yn enwedig mewn perthynas ag iechyd meddwl, mae rhyngweithio wyneb yn wyneb yn parhau i fod yn rhan hanfodol o gymorth. Rhaid i blant a phobl ifanc fod wrth wraidd gwaith dylunio gwasanaethau, a rhaid cydnabod bod anghenion a hoffterau unigolion yn amrywio - nid yw un ateb yn addas i bawb. Rydym yn gofyn am sicrwydd bod cynlluniau ar waith ar gyfer dychwelyd yn ddiogel at wasanaethau wyneb yn wyneb lle mai hynny yw'r dewis mwyaf priodol, a bod egwyddorion clir ar waith i asesu lle gallai parhad cymorth digidol o bell fod yn fuddiol.**

## 5. Gallu gweithwyr iechyd proffesiynol i gynorthwyo plant a phobl ifanc

Yn ystod ein sesiwn ar 9 Mehefin nododd nifer o weithwyr iechyd proffesiynol fod staff y GIG wedi cael eu hadleoli o wasanaethau plant a phobl ifanc er mwyn darparu'r ymateb brys i Covid-19. Disgrifiwyd eirioli dros gadw adnoddau ar gyfer iechyd meddwl yn ystod pandemig fel 'brwydr galed':

[2] Cofnod y Trafodion, paragraff 158, 9 Mehefin 2020.

> “…there was that period at the beginning when working in health meant that you were directed towards COVID unless it was considered life or limb, and that was really hard.”[3]

Rydym yn cydnabod, yn wyneb pandemig sy'n datblygu'n gyflym, bod gwasanaethau cyhoeddus wedi wynebu amgylchiadau digynsail o ran cynllunio a defnyddio adnoddau. Rydym yn cymeradwyo'r ymateb ar draws gwasanaethau i ymateb i'r argyfwng, ac i flaenoriaethu'r rhai mwyaf anghenus. **Rydym yn pryderu, fodd bynnag, er bod anghenion iechyd corfforol y boblogaeth o reidrwydd yn flaenoriaeth yng nghamau cynnar y pandemig hwn, bod gwasanaethau i ategu iechyd meddwl a llesiant plant yn agored i'r risg o ddad-flaenoriaethu.**

Rydym yn ymwybodol, ym mis Ebrill 2020, bod Dr Andrew Goodall wedi yn ysgrifennu at fyrddau iechyd yn nodi disgwyliad Llywodraeth Cymru y dylai gwasanaethau iechyd meddwl barhau i ddarparu ‘ymatebion diogel a chynaliadwy’ i unigolion sydd angen mynediad at gymorth iechyd meddwl yn ystod y cyfnod hwn. Cadarnhaodd y Gweinidog Iechyd i'r Pwyllgor hwn hefyd ar 5 Mai 2020 bod gwasanaethau iechyd meddwl, gan gynnwys y rhai ar gyfer plant a phobl ifanc, yn wasanaethau hanfodol ac na ddylid eu lleihau yn ystod y pandemig. Fodd bynnag, nid yw hyn o reidrwydd yn adlewyrchu'r dystiolaeth a glywsom gan ymarferwyr rheng flaen ynghylch adleoli staff sy'n gweithio mewn gwasanaethau plant a phobl ifanc. **Gan gydnabod y posibilrwydd real iawn o ail don o’r coronafeirws, mae angen i Lywodraeth Cymru bennu’r camau clir y bydd yn eu cymryd i sicrhau bod gwasanaethau iechyd meddwl plant yn cael eu hamddiffyn er mwyn osgoi'r canlyniadau hirdymor hir a fyddai'n dilyn yn sgil diffyg cymorth arbenigol.**

Rydym yn croesawu hyblygrwydd llawer o wasanaethau - yn y gwasanaeth iechyd a'r trydydd sector – wrth addasu i ddiwallu anghenion plant, pobl ifanc a'u teuluoedd. **Roedd gennym ddiddordeb arbennig mewn dysgu am y camau a gymerwyd mewn rhai meysydd i alluogi rhieni i gyfeirio at gyfleusterau pwynt mynediad unigol ar gyfer CAMHS. Byddem yn croesawu rhagor o fanylion gan Lywodraeth Cymru ynghylch lle mae'r modelau hyn ar waith, ac rydym o’r farn y dylid eu gwerthuso ac y dylid ystyried eu defnyddio ym mhob ardal bwrdd iechyd.**

Amlygodd tystion yr anhawster y gall pobl ifanc ei wynebu wrth gyrchu gwasanaethau gofal mewn argyfwng sy'n briodol i'w hoedran. Awgrymodd Mind Cymru fod angen gwaith i nodi sut beth ddylai'r model gofal hwn fod:

> “If any young person is attending a service, desperate for help, that service should be there. There's nothing in any guidance or any legislation that has suggested that those services shouldn't be there, but I think it just shows (…) the gap between services being there and sometimes the reality of trying to access those services, and trying to access them in a way that helps the young person.”[4]

Dywedodd Cymdeithas Seicolegol Prydain wrthym, er bod cwymp sylweddol mewn atgyfeiriadau hunan-niweidio yn gynharach yn y pandemig, mae timau argyfwng a gwasanaethau damweiniau

---

[3] Cofnod y Trafodion, paragraff 306, 9 Mehefin 2020.
[4] Cofnod y Trafodion, paragraff 183, 9 Mehefin 2020.

ac achosion brys bellach yn gweld cynnydd mewn achosion a hefyd bod ymddygiad hunan-niweidio yn dod yn fwy peryglus:

> "Actually, they've noticed more boys than usual presenting with self-harm and the crisis team, and they definitely feel it's getting busier, and also that it's getting riskier. So, maybe that children and young people who are struggling with those thoughts and feelings, perhaps because they're at home and under the spotlight of their parents, are maybe then using more extreme measures or extreme methods to act out on some of those thoughts and feelings."[5]

**Gofynnwn am fanylion pellach gan Lywodraeth Cymru ynghylch:**

- **y camau y mae wedi eu cymryd i fonitro'r cymorth gofal mewn argyfwng sydd wedi bod ar gael i blant a phobl ifanc ers cyflwyno'r cyfyngiadau symud;**
- **y trefniadau sydd ganddi ar waith i sicrhau bod cymorth gofal mewn argyfwng i blant a phobl ifanc ar gael i'r holl blant a phobl ifanc sydd ei angen wrth i'r pandemig ddatblygu.**

## 6. Effaith ar grwpiau penodol o blant a phobl ifanc

Er bod y pandemig a'r camau a gymerwyd i'w reoli wedi effeithio ar bob plentyn ac unigolyn ifanc, mae'n amlwg bod grwpiau penodol o blant yn fwy agored i'r effeithiau hyn. Yn ystod ein sesiwn ar 9 Mehefin, cawsom ein rhybuddio:

> "There are going to be young people whose experience of lockdown is going to be quite traumatic and difficult, in terms of those from **black and ethnic minority populations**, with the increased level of fear, potentially, in those communities of what the virus will do and how it will impact on them. That needs to be recognised […] Some **children of front-line staff** will have had really quite a worrying time period where maybe they're not seeing a parent as often […] there may well be groups, during this period, that are really impacted, and are impacted in a different way. There needs to be some thought about how those groups of young people are supported appropriately so that they can feel that they are moving forward at the same rate as their peers, but may need extra support."[6]

Cyfeiriwyd at yr effaith ar **blant sy'n cysgodi** hefyd, gyda'r Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant yn nodi:

> "…the shielding advice that's been given out is predominately adult-based, and for many, many children, it's been completely inappropriate."[7]

Mewn ymateb i gwestiwn a gyflwynwyd i'r Pwyllgor gan unigolyn ifanc ynghylch cau parciau, ymatebodd Coleg Brenhinol y Meddygon Teulu bod **plant difreintiedig** yn debygol o fod yn fwy

[5] Cofnod y Trafodion, paragraff 291, 9 Mehefin 2020.
[6] Cofnod y Trafodion, paragraff 240, 9 Mehefin 2020.
[7] Cofnod y Trafodion, paragraff 55, 9 Mehefin 2020.

difreintiedig fyth o ganlyniad i gamau i reoli'r cyfyngiadau symud. Er enghraifft, mae’n bosibl na fydd ganddynt fynediad at ardd, a gyda meysydd chwarae wedi cau bydd eu cyfleoedd i ymarfer corff a chwarae yn yr awyr agored yn fwy cyfyngedig. (Cofnod y Trafodion, paragraff 57, 9 Mehefin 2020). Fel y nodwyd uchod, mae gennym bryderon ynghylch gallu pob plentyn ac unigolyn ifanc i gael mynediad at dechnoleg ddigidol. Mae’n bosibl y bydd hyn nid yn unig yn effeithio ar eu hiechyd, gyda rhagor o wasanaethau'n cael eu darparu o bell, ond rydym hefyd yn poeni am y bwlch mewn cyrhaeddiad addysgol yn ehangu ymhellach os nad yw plant o gefndiroedd mwy difreintiedig yn gallu cymryd rhan mewn dysgu ar-lein.

**Rydym yn cydnabod bod y coronafeirws wedi effeithio ar bob plentyn ac unigolyn ifanc, ond rydym yn arbennig o bryderus am ei effaith ar grwpiau penodol, gan gynnwys plant du a lleiafrifoedd ethnig, plant sy’n cysgodi a phlant difreintiedig. Mae ein llythyrau blaenorol hefyd wedi cyfeirio at effaith y pandemig ar blant ag anghenion dysgu ychwanegol, a'r rhai mewn addysg heblaw yn yr ysgol. Byddem yn croesawu sicrwydd pellach gan Lywodraeth Cymru ynghylch sut mae'r grwpiau penodol hyn - ac unrhyw rai eraill sy'n cael eu hystyried yn arbennig o agored i niwed o ganlyniad i fesurau i reoli'r pandemig - yn cael eu nodi a'u cynorthwyo'n benodol o ran eu hiechyd corfforol a meddyliol. Byddem hefyd yn croesawu ymateb i farn y Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant nad oes unrhyw reswm i blentyn nad yw o dan ofal ymgynghorydd ysbyty gael ei gysgodi.**

## 7. Cyllid

Ar 27 Mai 2020, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei chyllideb atodol gyntaf ar gyfer 2020-21. Mae hon yn nodi, o'r £114 miliwn o gyllid sydd wedi ei addasu at ddibenion gwahanol mewn iechyd a gwasanaethau cymdeithasol er mwyn ategu camau i ymateb yn uniongyrchol i'r pandemig, mae £7 miliwn wedi ei ailbennu o'r Gronfa Gwella Gwasanaethau Iechyd Meddwl. Mewn ymateb i gwestiynau am y cyllid hwn yng nghyfarfod y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon ar 4 Mehefin 2020, eglurodd swyddog y Gweinidog:

> “The £7 million that you're referring to was funding that we'd allocated for this financial year in support of our mental health delivery plan. So there's a set of priorities articulated in that plan, which was published back in January, and that £7 million was to help health boards make progress on those areas set out. That included things like perinatal mental health, children and adolescent mental health services, neurodevelopmental services and the like.
>
> With the advent of Covid, while we absolutely still want to see improvements in our mental health services around those priority areas, we recognise that that funding would be needed to maintain and enhance the mental health response to Covid, so that £7 million is still within the mental health budget, but has been, if you like, repurposed to support mental health services more generally in their response to Covid.”[8]

[8] Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon, Cofnod y Trafodion, paragraffau 14-15, 4 Mehefin 2020.

**Mae'r Gronfa Gwella Gwasanaethau Iechyd Meddwl yn rhan hanfodol o'r cymorth ariannol sydd ar gael ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed. Yn dilyn ein hadroddiad Cadernid Meddwl, fe wnaeth Llywodraeth Cymru iechyd meddwl a llesiant plant a phobl ifanc yn flaenoriaeth genedlaethol benodol. Er ein bod yn cydnabod yr angen i ailbennu rhywfaint o weithgarwch a chyllid yn ystod y pandemig, rhaid i blant a phobl ifanc beidio â bod ar eu colled o ganlyniad i addasiadau i gyllidebau. Gofynnwn am dystiolaeth gan Lywodraeth Cymru bod digon o arian ar gael i flaenoriaethu'r trawsnewid gwasanaethau sy'n ofynnol ym maes iechyd meddwl plant yng Nghymru ochr yn ochr â'r ymateb i'r pandemig hwn.**

**CYPE(5)-18-20 - Papur i'w nodi 2**

Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon**
—
Welsh Parliament
**Health, Social Care and Sport Committee**

**Y Gwir Anrhydeddus Mark Drakeford AS**

Prif Weinidog Cymru

03 Gorffennaf 2020

Annwyl Brif Weinidog

**Gofal plant i weithwyr allweddol yn ystod gwyliau'r haf**

Byddwch yn ymwybodol bod y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon yn cynnal ymchwiliad i effaith y pandemig COVID-19, a sut gaiff ei reoli, ar iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru.


O'r dystiolaeth rydym wedi'i chlywed fel rhan o'n hymchwiliad, rydym yn bryderus nad yw'n ymddangos bod unrhyw ddarpariaeth gofal plant penodol ar gael ar gyfer gweithwyr allweddol sydd â phlant oedran ysgol yn ystod gwyliau'r haf. Mae'r gweithwyr hyn wedi chwarae rhan hanfodol yn ein hymateb i'r pandemig, ac mae'r rôl honno'n parhau yn naturiol yn ystod gwyliau'r ysgol. Mae hyn yn arbennig o wir yn achos gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol a fydd, yn ogystal â chyfrannu at yr ymateb i Covid-19, yn hanfodol wrth ailgychwyn y gwasanaethau a ddaeth i ben dros dro yn ystod y pandemig.

Rydym yn teimlo y gallai Llywodraeth Cymru gynorthwyo â'r mater hwn trwy sicrhau bod cyllid ar gael i awdurdodau lleol i'w galluogi i roi trefniadau ar waith. Rydym yn cydnabod ymateb rhagorol staff ysgolion trwy gydol y pandemig ac, er nad ydym yn credu y dylai'r staff hyn fod yn gyfrifol am y gofal plant ychwanegol hwn, efallai y gellir defnyddio adeiladau ysgolion at y diben hwn.

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech ystyried y mater hwn, a darparu manylion i ni ynghylch sut mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu mynd i'r afael â'r bwlch hwn yn y ddarpariaeth.

Anfonir copi o'r llythyr hwn at y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a Chadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg.

Yn gywir



Dr Dai Lloyd AS
**Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddIechyd@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddHealth@senedd.wales
0300 200 6565

Eitem 3.3

CYPE(5)-18-20 - Papur i'w nodi 3

Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**
—
Welsh Parliament
**Children, Young People and Education Committee**

Kirsty Williams AS, y Gweinidog Addysg
Dyddiad | Date: 08 Gorffennaf 2020
Pwnc | Subject: **Addysg ddewisol yn y cartref**

Annwyl Kirsty,

Rwy'n ysgrifennu yn dilyn eich Datganiad Ysgrifenedig ar 22 Mehefin 2020 am y cynigion ar gyfer y canllawiau statudol ar addysg yn y cartref a rheoliadau drafft y gronfa ddata addysg.

Fel y gwyddoch, wedi inni ohebu â chi ynghylch y mater hwn sawl gwaith dros y 18 mis diwethaf, mae gan y Pwyllgor ddiddordeb ym maes addysg ddewisol yn y cartref.

Roeddem yn siomedig felly o glywed yn eich cyhoeddiad yn ddiweddar "na fydd bellach yn bosibl cwblhau'r gwaith a gynlluniwyd ar y canllawiau statudol ar addysg yn y cartref a rheoliadau drafft y gronfa ddata addysg yn ystod tymor y Llywodraeth hon".

Fel Pwyllgor, rydym yn deall yn llawn y pwysau sylweddol sydd ar Weinidogion Cymru a swyddogion y Llywodraeth o ganlyniad i'r argyfwng iechyd cyhoeddus presennol. Fodd bynnag, rydym yn parhau i gredu bod angen gweithredu i amddiffyn hawliau plant sy'n cael eu haddysgu yn y cartref. Rydym yn ymwybodol eich bod chi, fel ninnau, yn prydereu'n arw am blant a phobl ifanc sydd "ynghudd" yn ystod y pandemig ac yn credu bod hyn yn cryfhau'r ddadl bod angen dybryd i weithredu yn y maes hwn.

Sylwn fod Comisiynydd Plant Cymru wedi ysgrifennu atoch i amlinellu ei phryderon sylweddol am y cyhoeddiad hwn ac mae wedi gofyn nifer o gwestiynau ynghylch sut y gwnaed y penderfyniadau hyn. Byddwn yn ddiolchgar pe gallech anfon copi o'ch ymateb i'r cais hwn.

Yn gywir

**Lynne Neagle AS**
**Cadeirydd**

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg | We welcome correspondence in Welsh or English.

Cc Yr Athro Sally Holland, Comisiynydd Plant Cymru

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddPPIA@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddCYPE@senedd.wales
0300 200 6565

Comisiynydd
Plant Cymru

Children's
Commissioner
for Wales

At: Kirsty Williams

Y Gweinidog Addysg

**Trwy e-bost yn unig**

06 Gorffennaf 2020

Annwyl Weinidog,

Rwy'n ysgrifennu atoch heddiw i'ch annog i gyhoeddi'n ddioed eich disgwyliadau o ran darpariaeth ysgolion yn nhymor yr hydref, fel bod modd i arweinwyr ysgol gynllunio'u darpariaeth.

Dylai'r disgwyliadau hynny nodi sut mae cynnig darpariaeth ddiogel a chroesawgar mewn ysgolion a cholegau, heb osgoi risgiau'n ormodol, a thrwy wneud hynny sicrhau cydbwysedd rhwng anghenion llesiant a chymdeithasu plant a'u diogelwch corfforol. Dylid nodi hefyd y disgwyliadau ar gyfer cefnogi plant sy'n debygol o fod wedi profi anfantais addysgol oherwydd nad ydynt wedi gallu ymgysylltu'n llawn â dysgu yn ystod y misoedd diwethaf, a hynny yn sgîl ffactorau sy'n amrywio o anghenion dysgu ychwanegol i ddiffyg adnoddau ac amser rhieni neu hyder addysgol gartref. Ar ôl un wythnos yn unig o'r cyfnod 'ailgydio, dal i fyny a pharatoi' mae adroddiadau'n dod i'r amlwg bod plant o gefndir mwy difreintiedig yn ymgysylltu llai â phresenoldeb yn yr ysgol nag eraill.

Er mai fy ngobaith didwyll yw y byddwn ni'n gallu *mwyafu* presenoldeb corfforol plant ar safleoedd ysgolion a cholegau ym mis Medi, dylai eich disgwyliadau ar gyfer ysgolion a cholegau gydnabod hefyd y posibilrwydd gwirioneddol y gallai rhai plant fethu dod i'r ysgol neu'r coleg o dan yr amgylchiadau canlynol:

- oherwydd eu bod nhw neu eu haelwyd yn gwarchod neu'n hunan-ynysu
- oherwydd bod gofyniad ar ysgolion o hyd i gynnig dysgu cyfunol ar ddechrau'r tymor
- oherwydd bod cyfyngiadau symud lleol neu genedlaethol wedi gorfod cael eu gweithredu

Rhaid dangos yn eglur sut bydd *pob* plentyn a pherson ifanc yn derbyn eu hawl lawn i gael addysg, a charwn ofyn i chi nodi o leiaf isafswm disgwyliadau ynghylch sut cyflawnir hyn trwy ymgysylltu gweithredol ar-lein ac all-lein, gan gynnwys addysgu cydamserol ac anghydamserol trwy fideo.

Fel yr ydych chi a'ch swyddogion yn boenus o ymwybodol, mae cludiant i'r ysgol yn dal yn fater heriol iawn, a hyderaf fod cynlluniau ar waith i nodi disgwyliadau pellach mewn perthynas â'r ddarpariaeth hon er mwyn i

Tŷ Ystumllwynarth/Oystermouth House
Llys Siarter/Charter Court, Phoenix Way
Abertawe/Swansea SA7 9FS
01792 765600

post@comisiynyddplant.cymru
post@childrenscommissioner.wales

**comisiynyddplant.cymru**
**childrenscommissioner.wales**



Croesawn ohebiaeth yn y Gymraeg yn ogystal â'r Saesneg ac mewn amryw o fformatau
We welcome correspondence in the medium of Welsh and English as well as alternative formats

deuluoedd, awdurdodau lleol, darparwyr trafnidiaeth, ysgolion a cholegau fedru cynllunio ar gyfer mis Medi.

Efallai bydd gennych chi ddiddordeb mewn gwybod fy mod hefyd wedi ysgrifennu at undebau athrawon a staff ysgol heddiw, yn eu hannog i weithio'n adeiladol gyda'r llywodraeth a chaniatáu i'w haelodau gefnogi gallu plant i fanteisio gymaint â phosibl ar eu hawliau addysg.

Rwyf hefyd wedi ysgrifennu heddiw at Brif Weinidog Cymru, yn holi ynghylch y dehongliad gwyddonol o risgiau'r feirws yng Nghymru sydd hyd yma wedi atal cyhoeddiad ynghylch dychwelyd i'r ysgol yn llawn amser yn yr hydref, mewn cyferbyniad â 3 gwlad arall y Deyrnas Unedig.

Rwyf wedi croesawu'n gynnes y cyfle i blant fedru dewis mynd i'r ysgol y mis yma, ac rwy'n ymwybodol bod hyn i'w weld yn brofiad cadarnhaol yn gyffredinol i bawb dan sylw, er gwaethaf natur gyfyngedig y ddarpariaeth. Serch hynny, mae cwestiynau'n dal heb eu hateb ynghylch trefniadau'r tymor newydd, ac mae eich arweiniad yr wythnos hon yn hanfodol i sicrhau disgwyliadau cwbl eglur ynghylch sut bydd hawliau addysgol plant yn cael eu cyflawni.

Rwy'n cydymdeimlo'n fawr â'r newid beunyddiol mewn amgylchiadau y mae'r genedl wedi'u hwynebu yn ystod y pandemig, a'r effaith mae hynny wedi'i chael ar eich swyddogion a'n gwasanaethau cyhoeddus. Serch hynny, byddwn i wedi disgwyl i gynllunio sefyllfaoedd ar gyfer ailagor ysgolion fod yn derbyn sylw prysur ers iddynt gau ym mis Mawrth, a gofynnaf yn awr i chi gyhoeddi ar fyrder eich disgwyliadau o ran y ddarpariaeth addysg i blant ym mis Medi.

Yn gywir,

Sally

Sally Holland
Comisiynydd Plant Cymru
Children's Commissioner for Wales

Comisiynydd
Plant Cymru
Children's
Commissioner
for Wales

At: Y Gwir Anrh. Mark Drakeford AS

Prif Weinidog Cymru

**Trwy e-bost yn unig**

06 Gorffennaf 2020

Annwyl Brif Weinidog,

Plant a mesurau i lacio cyfyngiadau oherwydd Covid-19

Fel rhan o'ch dyletswydd gyfreithiol i ystyried hawliau plant o dan CCUHP wrth wneud penderfyniadau polisi, rwy'n eich annog i ystyried mynediad plant at hawliau, gan gynnwys iechyd meddwl a llesiant, gweithgaredd corfforol, chwarae, addysg a chymdeithasu gyda ffrindiau, wrth i chi wneud y penderfyniadau anodd ynghylch pa feysydd mae cyfyngiadau i'w llacio ynddynt yn y cyfnod adolygu nesaf. Rwy'n arbennig o ymwybodol, fel yr ydych chithau mae'n siŵr, o'r cyfleoedd anghyfartal a fu gan blant i ymarfer yr hawliau hynny yn ystod y misoedd diwethaf, yn ôl a oes ganddynt ardd a mannau gwyrdd i fynd iddynt, hyder rhieni, amser ac adnoddau materol i gefnogi addysg, a ffactorau teuluol, gan gynnwys siblingiaid i chwarae gyda nhw neu fyw ar aelwydydd sydd o dan straen o sawl cyfeiriad.

Oherwydd yr wybodaeth sy'n dod i'r amlwg ynghylch risg is trosglwyddo COVID-19 gan blant, a'r wybodaeth ynghylch risgiau is yn yr awyr agored ac mewn tymheredd mwynach, byddwn i'n disgwyl ein bod, fel cenedl, mewn sefyllfa i gymryd camau clir ymlaen i alluogi plant i gymdeithasu a manteisio ar eu hawliau eraill. Rwyf wedi cael fy nghalonogi gan y camau a gymerwyd yn yr Alban yr wythnos ddiwethaf, er enghraifft, i ailagor mannau chwarae a dileu'r cyfyngiadau ar gymdeithasu yn yr awyr agored ymhlith plant o dan 12 oed.

Er mai mater i'ch cynghorwyr gwyddonol a meddygol, yn hytrach nag i minnau fel Comisiynydd Plant, yw nodi pa lefelau o risg sy'n dderbyniol o ran cadw pellter cymdeithasol, hoffwn eich annog i ystyried yn fanwl a all y cyngor gwyddonol gefnogi penderfyniad i wneud y canlynol:

Dros gyfnod gwyliau'r haf

- Caniatáu i blant chwarae a chymdeithasu'n rhydd y tu allan – gyda chyfyngiadau ar faint grwpiau os bydd angen
- Agor mannau chwarae awyr agored mewn parciau – eto gallai fod angen rheolau ynghylch niferoedd a chadw pellter cymdeithasol rhwng oedolion
- Ailafael mewn chwaraeon a sesiynau chwarae awyr agored.

Tŷ Ystumllwynarth/Oystermouth House
Llys Siarter/Charter Court, Phoenix Way
Abertawe/Swansea SA7 9FS
01792 765600

post@comisiynyddplant.cymru
post@childrenscommissioner.wales

**comisiynyddplant.cymru**
**childrenscommissioner.wales**



Croesawn ohebiaeth yn y Gymraeg yn ogystal â'r Saesneg ac mewn amryw o fformatau
We welcome correspondence in the medium of Welsh and English as well as alternative formats

O fis Medi

- Galluogi cynifer o blant â phosibl i ddychwelyd i leoliadau meithrin, ysgol a choleg mor agos at amser llawn ag sy'n bosibl trwy leihau'r canllawiau pellter cymdeithasol i blant a phobl ifanc i'r *uchafswm* rydych chi'n teimlo bod y cyngor gwyddonol yn ei gyfiawnhau. Bydd unrhyw ostyngiad i'r canllawiau pellter cymdeithasol y gall y llywodraeth eu cyflwyno yn caniatáu i fwy o blant fod yn bresennol bob dydd, i gludiant ysgol redeg yn fwy effeithiol, ac i'r profiad ysgol roi mwy o foddhad i blant wrth iddynt fedru rhyngweithio'n fwy naturiol gyda'u cyfoedion.
- Rwy'n ymwybodol bod gwledydd eraill y Deyrnas Unedig wedi cyhoeddi cynigion i ailafael mewn addysg amser llawn yn yr ysgol o ddechrau tymor yr hydref a charwn holi ai gwahanol ddehongliadau o'r cyngor gwyddonol neu batrymau gwahanol yn ymlediad y feirws sydd wedi atal Cymru rhag mynd ar ôl uchelgais debyg?

Rwy'n cydnabod eich dull gofalus a graddol o symud y genedl allan o'r cyfyngiadau symud trwy ailafael mewn gweithgareddau cymdeithasol ac economaidd un cam ar y tro. Mewn amgylchiadau mor eithriadol gall y lleisiau cryfaf weithiau foddi eraill. Rhaid i ni beidio ag anghofio pwysigrwydd ymweliad dyddiol â'r siglenni ar gyfer llesiant plentyn bach a phwysigrwydd chwarae a chymdeithasu gyda chyfoedion i blant o bob oed. Er fy mod i'n derbyn yr anawsterau economaidd mae ein diwydiant lletygarwch yn eu hwynebu, gallai penderfyniadau i agor tafarndai a bwytai cyn cyfarpar chwarae mewn parciau, a chyn cyhoeddi isafswm disgwyliadau'r llywodraeth o ran yr addysg bydd plant yn ei derbyn ym mis Medi, greu'r argraff bod anghenion oedolion yn cael blaenoriaeth dros rai plant.

Fel rwyf wedi bod yn gwneud ar hyd argyfwng y pandemig, rwy'n fwy na pharod i drafod y materion hyn ymhellach gyda swyddogion a chynnig arbenigedd fy nhîm ar gyfer datblygu canllawiau diogel, hwylus i blant, wrth gymryd unrhyw gamau fel y rhai a amlinellwyd uchod, ac rwyf wedi ategu hynny mewn llythyr ar wahân at y Gweinidog Addysg heddiw.

Yn gywir,

Sally

Sally Holland
Comisiynydd Plant Cymru Children's Commissioner for Wales

Copi at: Julie Morgan, Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Kirsty Williams, Gweinidog Addysg

Comisiynydd
Plant Cymru

Children's
Commissioner
for Wales

At: Pob undeb athrawon yng Nghymru

**Trwy e-bost yn unig**

06 Gorffennaf 2020

Annwyl gydweithiwr,

Wrth i nesáu at gyfnod traddodiadol gwyliau'r haf rydyn ni'n wynebu ansicrwydd parhaus ynghylch gweithrediadau ysgolion, colegau a lleoliadau addysg eraill yn nhymor yr hydref. Mae ein hymateb fel cenedl i'r pandemig eisoes wedi cael effaith ddwys ar blant, a nawr bod yr haf ar y gorwel, mae perygl y gallai hynny achosi oedi i'r cynllunio manwl sy'n angenrheidiol ar gyfer yr hydref.

Rwy'n pryderu'n fawr am risg oedi o'r fath. Oddi mewn i'r canllawiau gwyddonol, mae'n rhaid i ni geisio mwyafu'r cyfleoedd plant i brofi eu hawliau dynol, gan gynnwys eu hawliau i gael addysg ac i fod yn ddiogel. Rwyf wedi ysgrifennu at y Llywodraeth ar y mater hwn heddiw, i annog mwy o eglurder yn y disgwyliadau fel mater o frys, ond mae gan undebau athrawon hefyd rôl bwysig i'w chwarae.

Mae'n rhaid i iechyd a diogelwch eu haelodau gael y lle blaenaf yn ystyriaethau undebau, ond mae'n rhaid i undebau sicrhau hefyd bod eu haelodau'n teimlo eu bod yn cael eu cefnogi a'u galluogi i gyflawni eu rôl broffesiynol hyd eithaf eu gallu. Gan gadw hyn mewn cof, rwy'n galw ar bob undeb addysg yng Nghymru i wneud y canlynol:

- sicrhau bod cynllunio yn symud ymlaen yn ystod misoedd yr haf fel bod lleoliadau'n barod i ddychwelyd i'r graddau llawnaf sy'n bosibl ar ddiwrnod cyntaf y tymor;
- sicrhau bod rôl broffesiynol eu haelodau wrth addysgu plant yn cael blaenoriaeth. Bu llawer o ffocws yn genedlaethol ar faterion gweithrediadol, ac mae'n hanfodol nad yw addysg ei hun yn cael ei gwthio o'r neilltu bellach;
- sicrhau eu bod yn cefnogi eu haelodau i ymgysylltu â dysgwyr gartref gan ddefnyddio'r ystod lawn o offer sydd ar blatfform dysgu cenedlaethol Hwb, gan gynnwys cyfleusterau fideo-gynadledda.

Mae'r pandemig hwn wedi dangos rhywbeth roedden ni eisoes yn ei wybod, sef bod gweithwyr addysg proffesiynol yn hanfodol er mwyn i blant gael mynediad i'w hawliau dynol. Mae gwaith aelodau undebau yng Nghymru yn mynd y tu hwnt i alluogi mynediad at hawliau addysgol, a hefyd yn helpu i sicrhau gweddill hawliau plant, gan gynnwys hawliau i fod yn ddiogel, yn iach, i chwarae ac i gyfranogi yn eu cymuned.

Tŷ Ystumllwynarth/Oystermouth House
Llys Siarter/Charter Court, Phoenix Way
Abertawe/Swansea SA7 9FS
01792 765600

post@comisiynyddplant.cymru
post@childrenscommissioner.wales

**comisiynyddplant.cymru**
**childrenscommissioner.wales**



Croesawn ohebiaeth yn y Gymraeg yn ogystal â'r Saesneg ac mewn amryw o fformatau
We welcome correspondence in the medium of Welsh and English as well as alternative formats

Yn wir, mae llawer o weithwyr addysg proffesiynol wedi bod mewn cysylltiad â'm swyddfa yn ystod y misoedd diwethaf i fynegi eu pryderon ynghylch effaith cau ysgolion ar blant ac i rannu eu barn ynghylch yr angen am ymgysylltu o'r newydd â phlant mewn lleoliadau ysgol.

Rwyf wedi cymeradwyo'n gyhoeddus ymateb y proffesiwn addysg i effaith gychwynnol y pandemig, pryd y bu arweinwyr ysgol yn addasu diben ysgolion ac yn sicrhau bod y rhai mwyaf bregus yn cael eu cefnogi. Ond mae'r ddau fis diwethaf wedi dangos nad yw'r penderfyniadau ynghylch ailagor ysgolion wedi bod yn rhai syml, ac arweiniodd hynny ataf fi'n mynegi pryder yn gyhoeddus bod anghydfod ynghylch trefniadau contractiol wedi rhwystro'r cyfnod o bedair wythnos yn ôl y soniwyd amdano wrth deuluoedd a phlant yn wreiddiol.

Mae heriau'n parhau hefyd o ran sicrhau cefnogaeth ddigonol i ddysgu gartref. Bu dros 23,000 o blant a phobl ifanc yn rhan o arolygon yr ymgynghoriad Coronafeirws a Fi a arweiniwyd gan fy swyddfa, lle gwelwyd bod hanner y disgyblion uwchradd yn pryderu am golli tir a bod llawer yn gofyn am fwy o ffrydio byw a chynnwys fideo i'w helpu gyda'u haddysg. Rwy'n pryderu bod cyngor undebau fel petai wedi annog rhai gweithwyr proffesiynol i beidio â ffrydio'n fyw ar sail diogelu, er nad yw hynny wedi'i gyfiawnhau yn fy marn i o ystyried y canllawiau diogelu sydd ar gael ar Hwb.

Wrth i'r pandemig symud yn ei flaen, mae'n rhaid i ni gydnabod y bydd elfen o ansicrwydd ynghylch y dyfodol yn parhau, a bod angen i ni weithio'n hyblyg ac yn ymatebol ar draws pob sector. Gan gadw hyn mewn cof, rwy'n annog pob un o'r undebau addysg yng Nghymru i weithio i gael hyd i atebion, fel bod modd mwyafu cyfleoedd plant i brofi eu hawliau dynol.

Rhaid sicrhau nad yw cyfnod gwyliau'r haf yn cael ei wastraffu. Wrth gwrs, mae gweithwyr proffesiynol yn haeddu egwyl, ond mae'n rhaid i'n hysgolion fod yn barod i roi'r profiad llawnaf posibl o addysg i blant pan ddaw wythnos gyntaf y tymor. Mae plant eisoes wedi colli llawer, ac allwn ni ddim rhagweld yn sicr beth fydd y sefyllfa yn y gaeaf, pryd y gallai fod angen cau am gyfnodau pellach. Mae angen i ysgolion fod ar agor cymaint â phosib, ac mae angen hefyd i weithwyr proffesiynol fod yn defnyddio'r ystod lawn o offer sydd ar gael i gefnogi dysgu gartref.

Daeth y genedl at ei gilydd i ddarparu'r ymateb angenrheidiol i'r sector iechyd, ac maen rhaid i ni nawr sicrhau'r un ymateb i fyd addysg. Fel mewn sectorau eraill, mae angen i'n gweithwyr addysg proffesiynol addasu'n gyflym a gweithio'n wahanol yn y cyfnod eithriadol hwn. Rwy'n gwybod bod addysg yng Nghymru yn llawn gweithwyr proffesiynol ymroddedig ac arloesol sy'n chwarae rôl hanfodol bwysig ym mywydau plant. Mae'n rhaid i'r gweithwyr proffesiynol hyn gael cefnogaeth eu hundebau i wneud hynny hyd eithaf eu gallu, gan fod angen hynny ar ein plant a'n pobl ifanc yng Nghymru, a hynny ar frys.

Yn gywir,

Sally

Sally Holland
Comisiynydd Plant Cymru Children's
Commissioner for Wales